Paratoi a gweithredu cerbyd wedi ei bweru

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn cynnwys paratoi a gweithredu cerbyd wedi ei bweru fel ATV, gyriant pedair olwyn, beic cwad, cerbyd coes bob ochr, cerbyd profi, sglefren a bobcat. Nid yw'r safon yn cynnwys y defnydd o dractorau.

Mae'r safon yn cynnwys y defnydd o gerbydau wedi eu pweru mewn tywydd, cyflwr daear a thir amrywiol. Bydd yr amodau hyn yn cael effaith ar drin a defnyddio'r cerbyd.

Wrth weithio gyda pheiriannau neu offer dylech fod wedi cael hyfforddiant ac yn meddu ar dystysgrif gyfredol lle bo angen.

Wrth ddefnyddio cerbyd wedi ei bweru ar y briffordd gyhoeddus mae'n rhaid i chi feddu ar drwyddedau perthnasol ar eich cyfer chi a'r cerbyd.

Wrth wneud eich gwaith mae'n rhaid i chi ystyried yr effaith y bydd yn ei gael ar yr amgylchedd.

Mae'r safon hon yn addas ar gyfer unrhyw un sy'n gweithredu cerbyd wedi ei bweru ar y briffordd gyhoeddus neu oddi arni.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. asesu'r risg sydd yn gysylltiedig â'r gweithgaredd gofynnol
2. gwisgo dillad ac offer amddiffynnol personol (PPE) addas
3. paratoi'r **cerbyd wedi ei bweru** gofynnol trwy gynnal gwiriadau ac addasiadau cyn cychwyn, yn unol â deddfwriaeth berthnasol, **cyfarwyddiadau a manylebau**
4. cadarnhau bod y **cerbyd wedi ei bweru** yn ddiogel ac yn barod i'w ddefnyddio
5. esgyn a disgyn oddi ar y cerbyd wedi ei bweru yn ddiogel
6. gwirio ac addasu **amgylchedd y gweithredwr** er mwyn bodloni eich gofynion personol
7. gwirio'r ardal uniongyrchol am beryglon a rhwystrau cyn symud i ffwrdd, a phob amser wrth weithredu'r **cerbyd wedi ei bweru**
8. defnyddio'r arwyddion rhybudd cywir bob amser
9. gweithredu a symud y cerbyd wedi ei bweru yn ddiogel yn unol â'r math o gerbyd a'r gweithrediad sy'n cael ei wneud
10. addasu'r technegau gweithredu i ystyried newidiadau yn y tywydd, **cyflwr y ddaear** a'r mathau o **dir**
11. defnyddio **ffactorau effeithlonrwydd** i gynnal perfformiad effeithlon gan y **cerbyd wedi ei bweru** trwy drin a defnyddio'r cerbyd yn briodol
12. atal ac ynysu'r **cerbyd wedi ei bweru** ar ôl cwblhau'r gweithgaredd
13. gadael y **cerbyd wedi ei bweru** yn ddiogel ar ôl ei ddefnyddio ac yn y cyflwr cywir ar gyfer ei ddefnyddio yn y dyfodol
14. parhau i gyfathrebu gyda chydweithwyr a phobl eraill sydd yn gysylltiedig â'ch gwaith neu wedi eu heffeithio ganddo
15. dilyn canllawiau'r diwydiant a'r busnes i leihau niwed amgylcheddol
16. gwneud eich gwaith yn unol â deddfwriaeth amgylcheddol ac iechyd a diogelwch perthnasol, gofynion asesu risg, codau ymarfer a pholisïau busnes

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut i adnabod peryglon ac asesu risg
2. y math o ddillad ac offer amddiffynnol personol (PPE) addas ar gyfer y gweithgaredd
3. y ddeddfwriaeth bresennol mewn perthynas â pharatoi a gweithredu **cerbydau wedi eu pweru**
4. y mathau gwahanol o **gerbydau wedi eu pweru** a ddefnyddir ar gyfer gweithgareddau gwahanol
5. pa **gerbydau wedi eu pweru** sydd yn addas i gludo teithwyr
6. y mathau gwahanol o ategolion sydd ar gael ar gyfer **cerbydau wedi eu pweru** a'r ffordd y cânt eu cysylltu â'r cerbyd
7. sut i ddewis y **cerbyd wedi ei bweru** cywir ar gyfer y gweithgaredd gofynnol a sut i wneud gwiriadau ac addasiadau cyn cychwyn
8. sut i esgyn a disgyn o'r **cerbyd wedi ei bweru** yn ddiogel
9. sut i ddechrau ac atal y **cerbyd wedi ei bweru** yn ddiogel
10. y mathau o offer diogelwch ddylai fod ar gael
11. swyddogaeth yr holl reolyddion a'r offer ar y **cerbyd wedi ei bweru** yr ydych yn ei ddefnyddio
12. y defnydd cywir o arwyddion rhybudd a dangosyddion
13. y ffyrdd y dylid gweithredu a symud y **cerbyd wedi ei bweru**, a'r ffordd y bydd tywydd gwahanol, **cyflwr y ddaear** a'r mathau o **dir** yn effeithio ar y perfformiad
14. galluoedd a chyfyngiadau'r **cerbyd wedi ei bweru** a'i weithredwr, a'r ffactorau a allai effeithio ar ddiogelwch ac effeithlonrwydd
15. y mathau o beryglon a rhwystrau y gellir dod ar eu traws wrth weithredu **cerbyd wedi ei bweru** a'r ffordd y dylid trin y rhain
16. y math o broblemau a allai ddigwydd gyda'r **cerbyd wedi ei bweru**, sut i'w hadnabod a'r camau i'w cymryd
17. pwysigrwydd cynnal gwiriadau a chynnal a chadw fel mater o drefn i gadarnhau bod y **cerbyd wedi ei bweru** yn dal yn ddiogel ac mewn cyflwr gweithredol da
18. y rhesymau pam y dylid gadael y **cerbyd wedi ei bweru** yn y cyflwr cywir ar gyfer ei ddefnyddio yn y dyfodol
19. pam y mae'n bwysig cynnal diogelwch a diogeledd y **cerbyd wedi ei bweru** bob amser

20. pwysigrwydd parhau i gyfathrebu gyda'r rheiny sydd yn gysylltiedig â'ch gwaith neu wedi eu heffeithio ganddo a sut dylid gwneud hyn
21. yr effaith bosibl y gallai eich gweithgareddau ei gael ar yr amgylchedd a ffyrdd o leihau hyn
22. eich cyfrifoldebau yn unol â deddfwriaeth amgylcheddol ac iechyd a diogelwch perthnasol, codau ymarfer a pholisïau busnes

## Geirfa